# Cynnwys / Contents

Eitem 6_Item 6_Polisi Taliadau Uniongyrchol_Direct Payments Policy.pdf ........................................................ 2
Eitem 7_Item 7_Cynllun Goleuadau Stryd_Street Lighting Scheme.pdf ................................................................ 6

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**
**CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 05/05/2015

**PWNC / *SUBJECT***

Eitem 6: Polisi Taliadau Uniongyrchol

*Item 6: Direct Payments Policy*

---

**PENDERFYNIAD / *DECISION***

Mabwysiadu'r Polisi Taliadau Uniongyrchol.

*To adopt the Direct Payments Policy.*

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / *REASON FOR THE DECISION***

Bydd y Polisi Taliadau Uniongyrchol (y Polisi) yn sicrhau bod:

1. Pobl Gwynedd sydd angen cefnogaeth neu ofal, yn dilyn asesiad gweithiwr cymdeithasol, yn medru cael y rhyddid i drefnu eu gofal eu hunain a thrwy hynny gael dewis, llais, rheolaeth a hyblygrwydd,

2. Polisi Taliadau Uniongyrchol Cyngor Gwynedd yn cwrdd a gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014,

3. Sail cadarn i fabwysiadu gweithdrefnau a chefnogaeth addas, fydd yn eu tro yn gwneud Taliadau Uniongyrchol yn opsiwn mwy deniadol i bobl, fydd yn dod ag arbedion effeithlonrwydd i'r Cyngor yn ei sgil.

Bydd y Polisi yn gost effeithiol i'r Cyngor, yn ogystal a rhoi cyfle i bobl gael hyblygrwydd o ran pwy sy'n rhoi'r gofal iddynt, o le y maent yn ei brynu a phryd yn union y maent yn ei dderbyn.

Trwy fabwysiadu'r Polisi TU newydd, byddem yn caniatáu llai o fiwrocratiaeth o ran rheoleiddio ariannol, fyddai'n arwain at gostau gweinyddu is. Hefyd, gwyddom y gallwn gefnogi mwy o ddefnyddwyr TU heb gynyddu ein costau. Felly, wrth gynyddu nifer y defnyddwyr TU, gallwn gynyddu'r sgôp am arbedion effeithlonrwydd.

Nid yw trefn TU yn effeithio ar lefel y galw am ofal, felly nid yw'n gynllun sy'n amharu'n negyddol ar ein heconomi leol. Yn wir, gellid dweud ei fod yn debygol o warchod a rhoi cyfleoedd i'r gweithlu lleol, gan mai'r nod i'r mwyafrif o bobl yw derbyn gwasanaeth sydd ar gael yn rhwydd o fewn pellter rhesymol. Ers dyfodiad y Ddeddf yn 2014, gall pobl sy'n derbyn TU bellach ddefnyddio'r arian i brynu gwasanaethau gan ddarparwyr mewnol cynghorau. Golyga hyn fod gan y Polisi TU llai o berthnasedd i benderfyniadau ynglŷn a dyfodol unedau o fewn cynghorau sydd yn darparu gofal.

---

Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb Cychwynnol fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Polisi, a chanfuwyd na fyddai effaith negyddol ar unrhyw randdeiliaid, ac yn wir credir y byddai'r effaith yn bositif.

*The Direct Payments Policy (the Policy) will ensure that:*

1. *The people of Gwynedd who require support or care, following a social worker assessment, can have the freedom to arrange their own care and by doing so have choice, a voice, control and flexibility,*

2. *The Gwynedd Council Direct Payments Policy meets the requirements of the Social Services and Well-being Act (Wales) 2014,*

3. *There is a firm basis for adopting suitable procedures and support, which will in turn make Direct Payments a more attractive option for people, which will bring about efficiency savings for the Council.*

*The Policy will be cost-effective for the Council, as well as giving people an opportunity to be flexible in terms of who provides them the care, where they purchase it and when exactly they receive it.*

*By adopting the new DP Policy, there would be less bureaucracy in terms of financial regulation, which would result in lower administration costs. Also, we know that we can support more DP users without increasing our costs. Therefore, by increasing the number of DP users, we can increase the scope for efficiency savings.*

*A DP procedure does not affect the level of demand for care; therefore it does not detrimentally affect our local economy. Indeed, it could be said that it is likely to protect and give opportunities to the local workforce, as the aim for the majority of people is to receive a service which is easily available within a reasonable distance. Since the implementation of the Act in 2014, people receiving DP can now use the money to purchase services from Councils' internal providers. This means that the DP Policy is less relevant to decisions regarding the future of units within councils which provide care.*

*An initial Equality Impact Assessment was undertaken as part of the work of preparing the Policy, and it was found that there would be no negative impact on any stakeholders, and indeed it is believed that the effect would be positive.*

**SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / *OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS***

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyng. Mair Rowlands.

*The report submitted by Cllr Mair Rowlands was accepted.*

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / *THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS***

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

Mae'n amlwg bod yr hyn sydd gerbron yn cynnig mwy o reolaeth i unigolion am eu trefniadau gofal a hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ymgyrraedd at darged arbedion.

*It is clear that what is being offered is more control to individuals for their care management arrangements. It also contributes significantly towards the savings target.*

2. Swyddog Monitro */ Monitoring Officer*:-

Mae'r Adran, wrth adolygu'r polisi, wedi cynnal proses ymgynhorol sydd yn cynnwys defnyddwyr, a paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb gan adrodd ar ei ganlyniadau yn y cyfarfod. Dim sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb.

The Department, whilst reviewing the policy, have conducted a consultative process with users, and a X was prepared and its results reported upon in the Meeting. No further observations to add regarding proprierty.

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Rwy'n argyhoeddedig gellid gwireddu'r arbediad £190,000 disgwyliedig (a mwy o bosib) trwy gynyddu'r nifer o ddefnyddwyr sydd yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, os bydd hynny yn disodli (a lleihau cost) dulliau eraill o sicrhau gwasanaeth (ee. Gofal Cartref). Er mwyn cyflawni hynny rhaid ymyrryd i ddylunio gwell trefn, ail-lansio'r cynllun, a rheoli'r rhwystrau sydd wedi'u hadnabod ar ail dudalen yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod. Byddai mabwysiadu'r Polisi sydd ynghlwm yn amlygu'r egwyddorion sylfaenol ar lefel uchel, gan roi'r Cyngor mewn gwell sefyllfa i weithredu fel bo angen. Nesaf, bydd angen i'r Adran Oedolion sefydlu canllawiau gweithredol clir fydd, gobeithio, yn arwain at leihad mewn biwrocratiaeth tra'n bodloni gofynion o safbwynt priodoldeb ariannol, a bydd yr Adran Gyllid yn barod i gynghori ar y drefn arfaethedig.

*I am convinced that the expected saving of £190,000 (and possibly more) could be realized by increasing the number of users who receive Direct Payments, if it replaces and reduces the cost of other mechanisms that ensures service (e. g. Home Care). To achieve that there must be intervention to design a better system, re-launch the plan, and manage the barriers that have been identified on the second page of the report submitted to the meeting. Adopting the attached Policy highlights the basic principles involved at a high-level, giving the Council a better position to act as necessary. Next, the Adults Department needs to establish clear operational guidelines which will hopefully lead to a reduction in bureaucracy while meeting the requirements from a financial prospective. The Finance Department is ready to advise on the proposed procedure.*

**Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member***

Ddim yn fater lleol.

*Not a local matter*.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**
**CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 05/05/2015

**PWNC / *SUBJECT***

Eitem 7: Cynllun Goleuadau Stryd

*Item 7: Street Lighting Scheme*

**PENDERFYNIAD / *DECISION***

Ariannu cynllun i adnewydd 10,279 o oleuadau stryd i dechnoleg LED dros gyfnod o 6 mlynedd gan ddefnyddio £1,410,358 o gyllid o Gronfa Buddsoddi i Arbed y Cyngor.

*To fund a scheme to update 10,279 street lights to LED technology over a period of 6 years, using £1,410,358 of funding from the Council's Invest to Save Fund.*

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / *REASON FOR THE DECISION***

Mae Cyngor Gwynedd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Carbon i leihau allyriadau carbon o 60% erbyn 2021. Bydd symud i ddefnyddio technoleg LED yn cyfrannu tuag at wireddu'r targed hwn.

Bydd defnyddio technoleg LED, mewn cymhariaeth â'r lampau presennol, yn sicrhau arbedion mewn costau ynni o £260,000 y flwyddyn.

Mae achos busnes Cynllun y Cyngor wedi ei gymeradwyo gan Gwmni SALIX, sef cwmni annibynnol sy'n defnyddio arian cyhoeddus i ddarparu benthyciadau i'r sector gyhoeddus ar gyfer prosiectau effeithlonrwydd ynni. Mae SALIX yn cynnig benthyciad ariannol i'r Cyngor o £1,314,139 ar gyfer gwireddu'r Cynllun.
Yn hytrach na derbyn y cynnig o fenthyciad, cytunwyd i ddefnyddio Cronfa Buddsoddi i Arbed y Cyngor er mwyn –

- cyflymu'r rhaglen adnewyddu fel bod yr arbedion ynni yn cael eu gwireddu o'r ail flwyddyn o'r cynllun a'i gwireddu'n llawn erbyn y 5ed flwyddyn, o'u cymharu a seithfed a deuddegfed blwyddyn y Cynllun dan amodau SALIX.
- Bydd defnyddio cyllid y Gronfa Buddsoddi i Arbed hefyd yn galluogi cyflogi hyd at 3 prentis i gynorthwyo gyda' r gwaith.

Derbyniwyd y byddai'r Prif Swyddog Cyllid yn gweithio tuag at ail gyflenwi'r Gronfa Buddsoddi i Arbed yn sgil y penderfyniad.

*Gwynedd Council works in partnership with the Carbon Trust to reduce carbon emissions by 60% by 2021. Moving to using LED technology will contribute towards realising this target.*

*Using LED technology, in comparison with the existing lamps, will ensure £260,000 of savings in energy costs per annum.*

*The business case for the scheme has been approved by the SALIX Company, which is an independent company using public funding to provide loans to the public sector for energy efficiency projects. SALEX is eager for the Council to accept their offer of £1,314,139 loan to implement the Scheme. Rather than accepting the offer of a loan, it was agreed to use the Council's Invest to Save Fund to -*

- *speed up the updating programme so that the energy savings are realised from the second year of the scheme and fully realised by the fifth year, compared with the seventh and twelfth year of the Scheme under SALIX conditions.*
- *Using funding from the Invest to Save Fund will also enable the appointment of up to 3 apprentices to help with the work.*

*It was accepted that the Chief Finance Officer would work towards replenishing the Invest to Save Fund in light of the decision.*

**SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / *OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS***

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyng. John Wynn Jones.

*The report submitted by Cllr John Wynn Jones was accepted.*

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / *THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS***

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-

O ran y dewis rhwng ariannu ein hunain neu benthyca gan SALIX, gan mai dim ond drwy ariannu ein hunain i bob pwrpas y bydd yr arbediad ar gael i ni o fewn amserlen defnyddiol, o gofio ein dyhead i geisio lleihau ardrawiad y gostyngiad ariannol ar bobl Gwynedd 'rwyf yn ystyried fod y dewis yn un amlwg.

Er mai dim ond tua hanner yr arbediad fydd ar gael o fewn y ffenestr arbedion yr ydym yn cynllunio ar ei chyfer ar hyn o bryd, mae'r addewid o swm ychwanegol i ddod wedi hynny yn rhoi hyblygrwydd i ni hefyd ystyried a oes modd defnyddio hynny i osgoi gwneud toriadau gwasanaeth.

Yn naturiol, fel yr adroddwyd i gyfarfod diwethaf y Cabinet, ac fel y mae'r Pennaeth cyllid yn nodi, byddai hynny yn golygu y bydd ein Cronfa ar gyfer ymateb i'r anghenion buddsoddi er mwyn arbed bron yn wag a bydd angen ystyried dulliau o ail gyflenwi'r Gronfa honno.

*In relation to the choice between funding the proposal ourselves or borrowing from SALIX, as it is only through the self-funding method that the savings will be available to us in a timeframe which will be of any practical use, bearing in mind our*

*desire to minimise the effect of the budget reductions on the people of Gwynedd, I consider the choice to be obvious.*

*Although only half of the saving will be available in the savings planning window we are using, the promise of further savings gives us the flexibility to also consider whether we can use that flexibility to avoid having to make service cuts.*

*Naturally, as was reported at the last Cabinet meeting, and as the Head of Finance notes, this will now mean that the Fund available to meet any invest to save requirements will be almost empty and we will have to consider ways of replenishing this Fund.*

2. Swyddog Monitro / *Monitoring Officer*:-

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

*Nothing to add in terms of propriety.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-

Rwyf wedi cydweithio gydag awdur yr adroddiad ac rwy'n cefnogi'r argymhelliad.

Am fuddsoddiad o £1.3miliwn i wneud y gwaith, bydd y cynllun yma'n cynhyrchu arbediad blynyddol o £260,000. Drwy fuddsoddi o adnoddau mewnol y Cyngor, bydd y Cyngor yn cychwyn cynhyrchu arbedion o'r ail flwyddyn (2016/17) ymlaen, ac yn cyflawni'r arbediad llawn erbyn y pumed flwyddyn (2019/20).

Mae opsiwn amgen i dderbyn cynnig cwmni SALIX o fenthyciad £1.3miliwn, ac ad-dalu'r benthyciad dan drefniadau SALIX gyda phroffil o flwyddyn 2 (2016/17) tan flwyddyn 11 (2025/26). Mae'r tabl yn rhan 2.6 o'r adroddiad yn dangos byddai'r Cyngor ddim yn dechrau cronni arbedion tan flwyddyn 7 (2021/22) a ddim yn cyflawni'r arbediad llawn tan flwyddyn 12 (2026/27) o dan y trefniant yma.

Felly, cefnogir y cynllun Goleuadau Stryd, sy'n bwriadu cynhyrchu arbedion ariannol sylweddol. Hefyd, cefnogir yr argymhelliad i fuddsoddi o adnoddau mewnol y Cyngor, er mwyn cynhaeafu'r arbedion yn gynt, yn y cyfnod ariannol heriol gyfredol. Fodd bynnag, wedi ystyried pob ymrwymiad arall yn erbyn y 'Gronfa Buddsoddi i Arbed', bydd hyn yn gadael balans o lai na £100,000 ar ôl, a diau bydd y Cabinet yn awyddus i mi ail gyflenwi'r Gronfa, pryd bydd hynny'n bosib.

*I have worked together with the author of the report and I support the recommendation.*

*With an investment of £1.3million to undertake the work, the scheme will produce an annual saving of £260,000. By investing from the Council's own resources, the Council will be able to start realizing savings from the second year (2016/17) onwards, and will be able to achieve the full savings by the fifth*

*year (2019/20).*

*There is an alternative option of accepting the SALIX Company's offer of a £1.3million loan, with the repayment of the loan from year 2 (2016/17) to year 11 (2025/26). The table in 2.6 of the Report shows that the Council will not be able to start accumulating the savings until year 7 (2021/22) and will not be able to realize the full savings until year 12 (2026/27) under this arrangement.*

*I therefore support the Street Lighting Scheme, which intends to produce substantial financial savings. I also support the recommendation to invest from the Council's own resources, in order to yield the savings earlier in this challenging financial period. However, after considering all commitments against the Invest to Save fund, this will leave a balance of less than £100,000 and no doubt the Cabinet will be eager for me to replenish the fund, as and when possible.*

**Barn yr aelod lleol / *Views of the Local Member***

Ddim yn fater lleol.

*Not a local matter.*